**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LW/11433/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

14 Hydref 2021

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Medi ynghylch Deiseb P-06-1210 Ataliwch Lywodraeth Cymru rhag cyflwyno terfyn cyflymder cyffredinol o 20 milltir yr awr.

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran lleihau marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ein ffyrdd dros 21 mlynedd datganoli, ond er gwaethaf ein hymdrechion sylweddol, yn ystod 2018 digwyddodd y gyfran uchaf o'r holl anafusion (50%) ar ffyrdd 30mya. Ni ellir caniatáu hyn ac mae'n rhaid i ostyngiad i 20mya ar ein ffyrdd preswyl a ffyrdd trefol prysur eraill i gerddwyr fod y ffordd ymlaen.

Mae Cymru bellach ar flaen y gad o ran cyflymder diogel gyda'i chynllun i gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya ar bob ffordd gyfyngedig yn 2023. Mae'n rhoi Cymru mewn sefyllfa unigryw yn y byd ar ôl mabwysiadu deddfwriaeth llesiant a theithio llesol sy'n cefnogi dull gweithredu Vision Zero o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd, yn seiliedig ar y gred nad oes unrhyw farwolaeth neu anaf difrifol yn dderbyniol ar ffyrdd.

Ar hyn o bryd rydym yn treialu terfynau cyflymder o 20mya mewn wyth anheddiad ledled Cymru gan ganiatáu inni oresgyn unrhyw faterion nas rhagwelwyd cyn inni fwrw ymlaen â'r camau gweithredu cenedlaethol arfaethedig ym mis Ebrill 2023. Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y terfyn cyflymder diofyn o 20mya a ddaeth i ben ar 1 Hydref. Mae swyddogion bellach yn casglu'r canlyniadau a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd eleni.

Mae cyfanswm o 34,850km o ffyrdd cyhoeddus yng Nghymru. O ran y prosiect 20mya, rhagwelir yr isod:

- Bydd 60% o ffyrdd allan o gwmpas y prosiect gan fod ganddynt derfyn cyflymder o 40mya neu uwch.
- Bydd 35% o ffyrdd yn newid yn awtomatig o 30mya i 20mya (ffyrdd 30mya presennol, ddim yn ffyrdd dosbarthiadol A neu B).
- Bydd 5% o ffyrdd yn cael eu hadolygu drwy broses eithrio (ffyrdd 30mya presennol, ffyrdd dosbarthiadol A neu B), ac o'r rheini byddai disgwyl i gyfran fach ohonynt gael eu hystyried yn eithriad i aros ar 30mya. Bydd y mwyafrif yn dod yn 20mya.
- Mae <1% o ffyrdd eisoes yn 20mya.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhagwelir y bydd y newidiadau felly'n effeithio'n agos at 40% o gyfanswm hyd rhwydwaith ffyrdd Cymru. Rydym eisoes wedi gwneud gwaith ymgynghori helaeth gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gyda'r cyfarfod diweddaraf gydag Arweinwyr yn cael ei gynnal ar 7 Hydref.

Rwyf yn llwyr sylweddoli bod gwneud 20mya y terfyn cyflymder diofyn mewn ardaloedd preswyl yn gam beiddgar. Fodd bynnag, mae lleihau cyflymder yn lleihau damweiniau ac yn achub bywydau. Ochr yn ochr â hyn bydd ansawdd bywyd yn gwella, gan wneud lle ar ein strydoedd ar gyfer teithio llesol mwy diogel a bydd yn annog y broses o newid dulliau deithio yr ydym yn ceisio'i gyflawni fel rhan o Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change